Amodau a Thelerau Cyffredinol Parcio ar gyfer Digwyddiadau/Parcio a Theithio

1. Mae Dinas a Sir Abertawe'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i'r deiliad os yw'n bosib, ym marn resymol yr hyrwyddwr, y gall deiliad y tocyn beryglu diogelwch y gynulleidfa a/neu'r deiliad a/neu effeithio ar fwynhad y gynulleidfa a/neu gynnal y digwyddiad.

2. Nid yw Dinas a Sir Abertawe'n derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled, niwed neu ddifrod i'r deiliad neu eiddo'r deiliad.

3. Os caiff y digwyddiad ei ganslo, gall y deiliad, fel unig gam unioni'r deiliad, ofyn i Ddinas a Sir Abertawe ad-dalu wynebwerth y tocyn. Bernir y digwyddiad aml-arddangosiad hwn drwy gyfeirio at y thema gyffredinol yn hytrach na'r arddangosiadau unigol sydd wedi'u trefnu. Felly os nad yw arddangosiad sydd wedi'i drefnu'n gallu mynd rhagddo, am resymau na ellir eu hosgoi, ond mae Dinas a Sir Abertawe'n parhau i gynnal y digwyddiad, ni roddir unrhyw ad-daliadau. Nid yw ffïoedd archebu a chostau postio'n ad-daladwy mewn unrhyw amgylchiadau.

4. Er mwyn osgoi amheuaeth, os yw deiliad tocyn yn dewis peidio â defnyddio tocyn, ni roddir ad-daliad.

5. Ni chaiff cerbydau ddychwelyd i'r maes parcio ar ôl iddynt adael.

6. Gall meysydd parcio fod ar safleoedd tir glas a gall y tir fod yn anwastad. Efallai y bydd ffyrdd a rampiau dros dro. Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar y ffyrdd a'r rampiau hyn ac oddi arnynt neu wrth eu croesi mewn cadeiriau olwyn neu fygis.

7. Er mwyn diogelu rhag twyll, ni roddir tocynnau eraill yn lle'r rhai gwreiddiol ac nid ad-delir prisiau tocynnau os caiff tocyn ei anghofio, ei golli, ei ddwyn, ei ddifwyno, ei ddifrodi neu os na fydd ar gael.

8. Efallai bydd tâl gweinyddol/ffi archebu ar gyfer rhoi tocynnau; gall hyn amrywio gyda phob Swyddfa Docynnau unigol.

9. Ni chaiff unrhyw docynnau eu hailwerthu, eu defnyddio ar gyfer cystadlaethau, hyrwyddiadau neu becynnau lletygarwch heb ganiatâd ysgrifenedig Dinas a Sir Abertawe. Bydd unrhyw docynnau sy'n cael eu hailwerthu neu eu trosglwyddo yn y fath fodd yn ddirymadwy ac mae'n bosib y gwrthodir mynediad i'r deiliad.

Cyffredinol

10. O ran diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, barbeciwiau, canhwyllau na ffaglau wedi'u cynnau.

11. Os bydd y deiliad yn torri unrhyw un o'r amodau hyn, mae Dinas a Sir Abertawe'n cadw'r hawl i ganslo'r tocyn a chadw unrhyw arian a dalwyd amdano.

12. Rhaid i ddeiliaid tocynnau gydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau a roddir gan bersonél a stiwardiaid pan fyddant yn digwyddiad.

13. Mae deiliaid tocynnau'n rhoi caniatâd i'w ffilmio, i gael eu lluniau wedi tynnu a'u recordio ac yn deall efallai y gallai ffotograffau, ffilmiau neu recordiadau gael eu darlledu, eu cyhoeddi, eu trwyddedu neu eu defnyddio am byth (heb daliad).

14. Mae deiliaid tocynnau'n cytuno y bydd unrhyw ddelweddau, fideos neu recordiadau sain a geir yn y digwyddiad yn cael eu defnyddio at ddibenion preifat a domestig yn unig ac ni allant gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, ar y rhyngrwyd neu fel arall.

15. Bydd gan Ddinas a Sir Abertawe'r hawl i gopïo a defnyddio delweddau, fideos neu recordiadau clywedol a grëir gan ddeiliaid tocynnau ac yr ystyrir eu bod yn briodol, a threfnu eu bod ar gael, heb orfod talu na chydnabod mai deiliad y tocyn greodd y deunydd hwnnw.

16. Mae Dinas a Sir Abertawe'n cadw'r hawl i newid yr amserlen a hysbysebwyd.

17. Mae'r sawl sy'n mynd i ddigwyddiad yn rhyddhau'r trefnwyr (Dinas a Sir Abertawe) o unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i eiddo personol a allai ddeillio o'r digwyddiad. Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

18. Ni chaiff tocynnau eu hailwerthu (gan gynnwys mewn ocsiwn) na'u hysbysebu i'w gwerthu. Ni chaiff tocynnau eu defnyddio er mwyn hysbysebu, hyrwyddo, codi arian na dibenion marchnata (gan gynnwys cystadlaethau a swîps).

19. Dylai'r sawl sy'n mynd i ddigwyddiad ddeall y gall amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr effeithio ar y trefniadau ar gyfer y digwyddiad, a allai olygu gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd ac ni fydd y trefnwyr yn atebol i ddeiliaid tocynnau o ran oedi, gohirio neu ganslo o'r fath. Ni fydd gan Ddinas a Sir Abertawe unrhyw atebolrwydd i ddeiliaid tocynnau o ran y fath oedi, ohirio neu ganslo.

20. Ni chaniateir hysbysebu masnachol neu hyrwyddol/gweithgarwch marchnata yn y digwyddiad neu gerllaw iddo.

21. Ni all y sawl sy'n mynd i ddigwyddiad gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y mae trefnwyr yn ystyried ei bod yn ymwneud â marchnata neu hysbysebu anawdurdodedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, farchnata unigol neu grŵp).

RHYBUDD: Digwyddiad awyr agored yw hwn. Byddwch yn barod am dywydd garw. Cynhelir y digwyddiad boed law neu hindda. Gall bod yn agored i synau uchel effeithio ar eich clyw.